**Sesiwn 2000-2001 Rhif 40**

# PAPURAU BUSNES

## RHAN 2 – ADRAN H

## PLEIDLEISIAU A THRAFODION DYDD IAU, 14 RHAGFYR 2000

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

Hysbyswyd yr Aelodau gan y Llywydd bod y Pwyllgor Deddfau, yn unol â Rheol Sefydlog 11.5, wedi ystyried bod angen adrodd bod sail i wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i *Orchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000* a wnaed o dan y Weithdrefn Weithredol ar 22 Mawrth 2000. Dywedodd Trefnydd y Cynulliad y byddai'n ymchwilio i'r mater ac yn adrodd yn ôl i'r Cynulliad.

**9.09 am**

**Cwestiynau Llywodraeth Leol i Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau**
Gofynnwyd y **7** cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 1 yn ôl.

**9.24am**

**Cwestiynau i Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd**
Gofynnwyd y **5** cwestiwn cyntaf.

**9.44am**

Gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar **hyfforddiant ymwybyddiaeth o gydraddoldeb** yn y Cynulliad.

**10.00 am**
Gwnaeth y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddatganiad ar y **Ddeddf Hawliau Dynol**.

**10.15 am**

**Cymeradwyo Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modiwleiddio) (Cymru) 2000**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modiwleiddio) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2000.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**1. Peter Rogers (Gogledd Cymru);**

Ychwanegu pwynt bwled newydd:

- Ac yn gofyn i'r Gweinidog dros Faterion Gwledig gyflwyno cynigion i sicrhau na fydd unrhyw ostyngiad mewn cymorthdaliadau uniongyrchol i ffermydd yn effeithio'n andwyol ar incymau net ffermydd.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd

- 'ac yn cynnal ymchwiliad i'r posibilrwydd o gyflwyno cyfrif 'Uned Lafur' wrth adolygu'r cynllun yn y dyfodol er mwyn rhoi mwy o gymorth i fusnesau fferm sy'n cynnig cyflogaeth.'

**Pleidleisiwyd**

**Gwelliant 1**

O Blaid 19; Ymatal 0; Yn erbyn 25; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 33; Cyfanswm 44

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Egwyddor y cynnig**

O Blaid 44; Ymatal 2; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd egwyddor y cynnig**

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi darganfod unrhyw faterion sy’n peri pryder yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Cynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Modiwleiddio) (Cymru) 2000, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Tachwedd 2000;

(b) yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Tachwedd 2000.

**Pleidleisiwyd**

O Blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 8; Cyfanswm 46

**Cymeradwywyd y cynnig**

**10.54am**

**Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair**

**Dadl ar y Rhaglen ar gyfer Llywodraethu**

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn croesawu Rhaglen Waith Flynyddol y Llywodraeth sy’n adlewyrchu’r Cytundeb Partneriaeth, *Rhoi Cymru’n Gyntaf*; a gyhoeddwyd ar 20 Tachwedd ac sydd bellach ar gael ar y fewnrwyd yn

http://assembly/aegis/AssemblyStaffArea/Cabinet/statements/2000/index.htm

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**

**1. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu "Rhaglen Waith Flynyddol y Llywodraeth" a rhoi "Rhaglen Waith y Llywodraeth ar gyfer y cyfnod hyd Gorffennaf 2001" yn ei le.

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd:

- Yn nodi bod y Cynulliad wedi cytuno ar rai o fentrau'r Rhaglen – megis cyflwyno cynllun datblygu cynaliadwy; llunio Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol; rhoi polisi GM cyfyngol ar waith; cynnal cynllun peilot ar gyfer y Fagloriaeth Gymreig; ymchwilio i galedi myfyrwyr; ymestyn yr hawl i gael profion llygaid rhad ac am ddim; datblygu strategaeth wastraff ar gyfer Cymru; ac ymestyn categorïau digartrefedd, ymhlith eraill - cyn ffurfio Clymblaid y Democratiaid Rhyddfrydol/Llafur.

**3. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd:

- Yn gresynu nad yw mentrau eraill y cytunwyd arnynt gan y Cynulliad Cenedlaethol, megis paratoi strategaeth gyflogaeth gynhwysfawr erbyn Rhagfyr 2000 (Gwell Cymru, tudalen 2), wedi'u cynnwys yn y rhaglen hon.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd:

- Yn gresynu nad oes ymrwymiad i wneud Dydd Gyl Dewi yn ddydd gyl cyhoeddus wedi'i gynnwys.

**5. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd:

- Yn gofyn i'r Weithrediaeth ddatblygu agenda sosialaidd radicalaidd ar gyfer Cymru sy'n seiliedig ar gyfle cyfartal ac egwyddorion datblygu cynaliadwy eraill.

**6. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd:

- Yn sylweddoli pa mor annigonol yw is-ddeddfwriaeth fel ffordd o roi polisïau ar waith er lles pobl Cymru ac yn galw ar i Brif Weinidog Cymru gyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch ymestyn pwerau deddfu'r Cynulliad Cenedlaethol.

**7. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd:

- Gofyn i'r Prif Weinidog gyflwyno sylwadau i Ysgrifennydd Gwladol Cymru ynghylch cyflwyno'r ddeddfwriaeth sylfaenol angenrheidiol i ddwyn ymlaen yn ddiymdroi fesur hawliau dinasyddion yng Nghymru (adran 9.10), a fydd yn cynnwys hawliau cymdeithasol, hawliau economaidd a hawliau eiddo newydd i bobl Cymru.

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu fel pwynt bwled newydd:

- Yn nodi bod Pact Partneriaeth y Glymblaid wedi ymrwymo i gyflwyno "Protocol ar Ryddid Gwybodaeth" erbyn diwedd 2000 (adran 9.4) ac yn gofyn i'r Weithrediaeth wneud hynny'n ddiymdroi.

**9. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu at ddiwedd y cynnig:

- Ac yn nodi ymrwymiad y Gweinidog Iechyd ar 7 Mehefin 2000 i gwtogi rhestr aros cleifion mewnol i 65,000 erbyn diwedd Mawrth 2001.

**10. David Melding (Canol De Cymru)**

Ychwanegu at ddiwedd y cynnig:

- Ac yn galw ar y weinyddiaeth i nodi swyddogaeth bosibl yr Ymddiriedolaethau Gofal Sylfaenol sy'n cael eu argymell gan Gymdeithas Feddygol Prydain.

**Pleidleisiwyd**

**Gwelliant 1**

O Blaid 20; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 1**

**Gwelliant 2**

O Blaid 21 ; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 2**

**Gwelliant 3**

O Blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 3**

**Gwelliant 4**

O Blaid 13; Ymatal 8; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 4**

**Gwelliant 5**

O Blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 5**

**Gwelliant 6**

O Blaid 11; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 46

**Gwrthodwyd gwelliant 6**

**Gwelliant 7**

O Blaid 13; Ymatal 0; Yn erbyn 35; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 7**

**Gwelliant 8**

O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 27; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 8**

**Gwelliant 9**

O Blaid 45; Ymatal 2; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Cymeradwywyd gwelliant 9**

**Gwelliant 10**

O Blaid 8; Ymatal 0; Yn erbyn 40; Cyfanswm 48

**Gwrthodwyd gwelliant 10**

**Y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

O Blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 21 ; Cyfanswm 48

**Cymeradwywyd y cynnig, fel y'i diwygiwyd**

**12.16pm**

**Dadl Fer: Karen Sinclair (De Clwyd); Sgrinio Cyffredinol ar Glyw Babanod Newydd-anedig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 12.41pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 19 Rhagfyr 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

## DOFGENNAU A GYFLWYNWYD AR 12 RHAGFYR 2000

LC45 - Y Pwyllgor Deddfau Adroddiad - Gorchymyn Llywodraeth Leol (Gwerth Gorau) (Adolygiadau a Chynlluniau Perfformiad) (Cymru) 2000